Taflen ffeithiau
6

Hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dinasyddion yr UE a'u Hawl i Bleidleisio

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi crynodeb byr o hawliau dinasyddion yr UE i bleidleisio yng Nghymru. Yn y daflen ffeithiau hon, ystyr 'dinasyddion yr UE' yw dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE.

Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd **(Brexit)**, mae hawliau dinasyddion yr UE ledled y DU wedi newid mewn nifer o ffyrdd. Rhaid oedd i ddinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd a oedd yn byw yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020, ac a oedd yn dymuno aros yng Nghymru, fod wedi cyflwyno cais i'r **Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)** naill ai am **Statws Preswylydd Sefydlog** (caniatâd amhenodol i aros) neu **Statws Preswylydd Cyn-Sefydlog** caniatâd i aros am 5 mlynedd) cyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin 2021. Nid oes yn rhaid i'r rhai sydd â chaniatâd amhenodol i aros neu ganiatâd amhenodol i gael mynediad, na'r rhai sy'n ddinasyddion Iwerddon, gyflwyno cais o'r fath, ond gallant wneud hynny os dymunant.

Yn achos dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd na chyflwynasant gais i'r EUSS hyd yn oed ar ôl y dyddiad cau) neu sydd â statws preswylydd cyn-sefydlog sydd wedi dod i ben, nid oes ganddynt hawl mwyach i aros yn y DU, a dylent geisio cyngor cyfreithiol os ydynt bellach yn dymuno aros yng Nghymru (nodir manylion y cymorth sydd ar gael ar waelod y daflen ffeithiau hon). Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi darparu ar gyfer ceisiadau hwyr a gyflwynir gan ddinasyddion yr UE, dinasyddion yr AEE a dinasyddion y Swistir, a'u teuluoedd a all ddangos tystiolaeth fod ganddynt sail resymol dros fethu dyddiad cau'r EUSS.

Bydd dinasyddion yr UE sydd wedi gwneud cais i'r EUSS ac sy'n aros am ganlyniad yn cael Tystysgrif Ymgeisio i brofi eu statws gwarchodedig.

Ni all dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd y DU am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021 gyflwyno cais am **Statws Preswylydd Sefydlog** na **Statws Preswylydd Cyn-sefydlog**. Rhaid i'r rhai sy'n dymuno aros yn hwy nag ymweliad byr o hyd at 6 mis gyflwyno cais am **Fisa Tymor Hir** (er enghraifft, i astudio, neu i weithio, neu i ymuno ag aelod o'u teulu).

Yn achos aelodau o deulu dinasyddion yr UE nad ydynt yn dod o'r UE, dim ond os ydynt eisoes yn meddu ar drwydded deulu'r EUSS, y gallant bellach ddod i'r DU ar ôl 1 Ionawr 2021. Nid yw, trwyddedau teulu'r AEE na cherdyn preswylio biometrig y DU, yn ddilys bellach yn y DU.

## Yr Hawl i Bleidleisio yng Nghymru

Mae gan unigolion hawl i bleidleisio mewn etholiadau Llywodraeth leol ac yn etholiadau Senedd Cymru yng Nghymru os ydynt:

- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon, yn ddinesydd yr UE neu'n ddinesydd tramor cymwys;
- yn 16 oed neu'n hŷn;
- heb eu heithrio'n gyfreithiol fel arall rhag pleidleisio;
- wedi cofrestru ar gofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer etholaeth y Senedd neu'r ardal awdurdod lleol; ac
- yn breswylydd yn yr ardal llywodraeth leol berthnasol.

Ni all unigolion bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU yng Nghymru oni bai eu bod:

- yn ddinasyddion Prydeinig, Gwyddelig neu'n ddinasyddion cymwys o'r Gymanwlad;
- yn 18 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod yr etholiad ('diwrnod pleidleisio');
- heb eu gwahardd yn gyfreithiol fel arall rhag pleidleisio;
- wedi cofrestru i bleidleisio yn y gofrestr etholwyr Seneddol ar gyfer yr etholaeth berthnasol;
- yn breswylydd yn yr etholaeth Seneddol berthnasol (neu'n ddinesydd Prydeinig sy'n byw dramor sydd wedi'i gofrestru i bleidleisio yn y DU yn ystod y 15 mlynedd diwethaf).

## Sut gall Dinasyddion yr UE gofrestru i Bleidleisio yng Nghymru

Mae cofrestru i bleidleisio yn hawdd, a gallwch wneud hynny ar wefan Llywodraeth y DU yn Cofrestru i bleidleisio (**www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**). Gallwch hefyd gysylltu â'ch awdurdod lleol a fydd yn gallu eich helpu os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd.

Bydd angen eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhif Yswiriant Gwladol arnoch (ond gallwch dal gofrestru os nad oes gennych un. Gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol i gadarnhau pwy ydych chi).

## Yr Hawl i Sefyll mewn Etholiadau

Gall unigolion sefyll fel ymgeisydd etholaethol neu ranbarthol mewn Etholiad Senedd os ydynt:

- yn 18 oed o leiaf
- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd tramor cymwys, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd yr UE sy'n byw yn y Deyrnas Unedig;
- heb eu heithrio'n gyfreithiol fel arall rhag sefyll.

Nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi fod yn etholwr cofrestredig yng Nghymru ond mae rhai eithriadau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiadol NAW Rhan 1 – A allwch sefyll mewn etholiad (**www.electoralcommission.org.uk**).

Mae gan unigolion yr hawl i sefyll fel ymgeisydd mewn Etholiad Llywodraeth Leol yng Nghymru os ydynt:

- yn 18 mlwydd oed o leiaf;
- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys yn y Gymanwlad, yn ddinesydd tramor cymwys neu'n ddinesydd o'r UE;
- heb eu heithrio'n gyfreithiol fel arall rhag sefyll;
- yn bodloni o leiaf un o'r pedwar cymhwyster canlynol:
    a. Rydych wedi cofrestru fel pleidleisiwr ar gyfer ardal yr awdurdod lleol rydych yn dymuno sefyll ynddi fel ymgeisydd ar ddiwrnod eich enwebiad ac wedi hynny, neu byddwch yn parhau i gael eich cofrestru yno.
    b. Rydych wedi meddiannu fel perchennog neu denant unrhyw dir neu safle arall yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyfan cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.
    c. Mae eich prif le neu'ch unig le gwaith yn ystod y 12 mis cyn diwrnod eich enwebiad a'r diwrnod etholiad wedi bod yn ardal yr awdurdod lleol; neu
    d. Rydych wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyfan cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.

I sefyll fel ymgeisydd mewn Etholiad Seneddol y DU mae angen i chi fod yn 18 oed o leiaf ac:

- yn ddinesydd Prydeinig;
- yn ddinesydd Weriniaeth Iwerddon;
- yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad; a
- heb eich eithrio'n gyfreithiol fel arall rhag sefyll.

**Nodyn Pwysig:** Bwriedir hyn fel canllawiau cyffredinol yn unig; nid yw'n gyngor cyfreithiol. Dylai unrhyw un sy'n ansicr ofyn am eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r ddeddfwriaeth a'r cyngor cysylltiedig yn y daflen ffeithiau hon yn gyfredol adeg eu cyhoeddi.

## Newidiadau i'r EUSS

Ar 17 Gorffennaf 2023 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref newidiadau i Gynllun Preswylio'n Sefydlog yr UE. Bydd statws dinasyddion sydd â statws cyn-sefydlog bellach yn cael ei ymestyn yn awtomatig am ddwy flynedd. Bydd y Swyddfa Gartref yn hysbysu dinasyddion pan fydd eu statws wedi'i ymestyn a chaiff eu statws digidol ar y system Gweld a Phrofi ei ddiweddaru'n awtomatig.

Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn uwchraddio'n awtomatig deiliaid statws cyn-sefydlog i statws sefydlog os ydynt yn gymwys. Bydd dinasyddion ond yn gymwys am yr uwchraddio awtomatig yma os oes gan y Swyddfa Gartref dystiolaeth eu bod wedi byw yn y DU dros y pum mlynedd diwethaf. Bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â'r rheini y mae eu statws yn cael ei uwchraddio'n awtomatig i statws sefydlog.

Nid oes yn rhaid ddinasyddion yr UE aros i'w statws gael ei uwchraddio'n awtomatig i statws sefydlog yn dilyn diwedd yr estyniad o ddwy flynedd. Gallant gyflwyno cais i uwchraddio cyn gynted ag y byddant yn gymwys.

Ni fydd y rheini nad ydynt wedi preswylio yn y DU yn ddi-dor ers pum mlynedd yn gymwys i gael eu huwchraddio'n awtomatig. Ond gallant gyflwyno cais cyn gynted ag y byddant yn gymwys am statws sefydlog.

## Rhagor o Wybodaeth a Chymorth

Mae cyngor cyfreithiol rhad ac am ddim yn ymwneud â'r EUSS i'w gael gan Gyfreithwyr Mewnfudo Arbenigol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sef Newfields Law. Dyma eu manylion cyswllt:

**Ffôn:** +44 (0) 292 169 0049

**E-bost:** info@newfieldslaw.com

**Cyfeiriad:** Newfields
35 Plas y Parc
Caerdydd, CF10 3RL

## Dolenni Defnyddiol

**Rydw i angen help gyda Statws Preswylydd Sefydlog**
www.settled.org.uk/en/help/

**Mae hawliau dinasyddion wedi newid | the3million**
www.the3million.org.uk/rights-have-changed

**Hafan – Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion**
ima-citizensrights.org.uk

**Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: gwybodaeth i ymgeiswyr hwyr – GOV.UK** www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-information-for-late-applicants/eu-settlement-scheme-information-for-late-applicants

**Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: canllawiau i weithwyr achosion – GOV.UK** www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-caseworker-guidance

**Dinasyddion yr UE – rydym ni am i chi aros yng Nghymru | LLYW.CYMRU**
www.llyw.cymru/paratoi-cymru/dinasyddion-yr-ue

**Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: pecyn cymorth i gyflogwyr – GOV.UK** www.gov.uk/government/collections/eu-settlement-scheme-employer-toolkit

**System fewnfudo'r DU sy'n seiliedig ar bwyntiau: gwybodaeth i ddinasyddion yr UE – GOV.UK** www.gov.uk/guidance/the-uks-points-based-immigration-system-information-for-eu-citizens

**Mewnfudo – Cyngor ar Bopeth**
www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/mewnfudo/

**Dinasyddion yr UE: Mewnfudo**
www.eusswales.com/cy/

**Cofrestru i bleidleisio – GOV.UK**
www.gov.uk/register-to-vote



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48400, ISBN digidol 978-1-83504-927-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg